Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Eirlys Jones**

**Amlwch**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Awst 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn fodlon, yn mynegi mwynhad ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau ac mae ganddynt gydberthnasau cryf â'r gwarchodwr plant. Maent yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn mwynhau archwilio'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr gored i wneud eu dewisiadau eu hunain wrth chwarae a dysgu. Mae'r plant yn meithrin eu hannibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae ganddi ddealltwriaeth briodol o'r rhan fwyaf o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu profiadau chwarae a dysgu addas i'r plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn lân. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod teganau priodol ac adnoddau addas ar gael ar gyfer ystod oedran y plant y gofelir amdanynt. Mae'n sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i gydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

**Llesiant** **Da**

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Caiff eu safbwyntiau a'u diddordebau eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn cyfarch eu ffrindiau drwy wenu arnynt a'u cofleidio. Mae'r plant yn siarad yn gyffrous am y tŷ pren y maent yn ei baentio. Maent yn dangos sut maent yn paentio'r drws a'r ffenestri mewn gwahanol liwiau llachar. Mae'r plant yn mwynhau rhannu eu straeon â'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, siaradodd un plentyn am ei ddiwrnod allan i'r sŵ, gan ddisgrifio ei brofiad o weld camel yn llawn brwdfrydedd. Yn ystod amser cinio, siaradodd y plant am eu hawydd i ymweld â'r fferm gyfagos i weld y gwartheg.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan y gwarchodwr plant cyfeillgar. Mae ganddynt gydberthnasau cryf â hi. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant yn gyfforddus am sgwrs, ei gwahodd i chwarae â nhw, a gofyn am rywbeth. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn amseroedd bwyd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn eistedd wrth y bwrdd yn aeddfed ac yn ymarfer defnyddio moesau da. Mae'r plant yn dysgu rhannu a chymryd tro yn dda. Er enghraifft, wrth chwarae â'r garej, roedd y plant yn rhannu cerbydau ac yn cymryd tro i'w rholio i lawr y ramp. Mae ffrindiau'n gweithio'n dda â'i gilydd fel tîm. Gwnaethant ddefnyddio offer tegan i esgus eu bod yn atgyweirio'r llithren a'r si-so yn yr awyr agored, gan egluro i'w gilydd yr hyn roeddent yn ei wneud. Mae'r plant yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, pan oedd angen newid cewyn eu ffrind, roedd y plant yn helpu'r gwarchodwr plant i estyn y bocs newid cewynnau yn barod i fynd i'r ystafell ymolchi.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau gwisgo i fyny a datblygu eu dychymyg. Er enghraifft, gwisgodd ffrindiau fel meddygon, gan ddefnyddio propiau i fesur tymheredd ei gilydd wrth chwarae rôl. Mae'r plant yn mwynhau archwilio'r propiau yn y gornel gartref. Roedd un o'r plant yn canolbwyntio wrth osod darnau o fara tegan mewn tostiwr tegan, gan wenu wrth iddynt neidio i fyny. Yn ystod sesiwn chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn dda. Er enghraifft, drwy reidio cerbydau â phedalau, rhedeg o gwmpas, a gwella'r cydsymud rhwng eu dwylo a'u llygaid gyda phêl a raced. Creodd y plant olygfa hyfryd yn y tŷ chwarae yn yr awyr agored, wrth iddynt esgus mai siop hufen iâ ydoedd. Roeddent yn siarad am eu hoff flasau hufen iâ ac yn gofyn i'r gwarchodwr plant pa hufen iâ yr oedd ei eisiau.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn addas. Maent yn dyfalbarhau wrth wisgo eu hesgidiau a'u hetiau haul eu hunain i chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd eu colli yn ystod amseroedd bwyd i'r plant helpu a gweini eu bwyd a'u diod eu hunain. Mae'r plant yn hyderus i archwilio'r ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored, gan wneud dewisiadau a chyfeirio eu chwarae eu hunain yn effeithiol. Mae'r plant yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

| Gofal a Datblygiad | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar ac mae wedi creu amgylchedd hyfryd a chartrefol. Mae'n adnabod y plant yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi’r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac mae'n ymateb mewn ffordd gyson ac amserol i'w ceisiadau.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o'r rhan fwyaf o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal, ac mae ganddi ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Cadarnhaodd na fu unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau yn y lleoliad. Nid yw polisi bwyd a maeth y gwarchodwr plant wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac nid yw ei harferion bob amser yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn bwyta creision ac yn yfed diod ffrwythau. Nid yw'r gwarchodwr plant yn annog y plant i yfed diodydd iachach fel llaeth neu ddŵr yfed ffres. Paratôdd y gwarchodwr plant ginio iach ac ymatebodd i geisiadau'r plant am frechdanau caws, tomatos, ciwcymbr a mefus i bwdin.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd er mwyn helpu'r plant i ddysgu beth i'w wneud mewn argyfwng, ond ni chaiff y canlyniad ei gofnodi i hwyluso gwelliannau yn y dyfodol. Mae'n annog y plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod cyson o'r oriau y mae'r plant yn bresennol bob dydd er mwyn cynnal trywydd archwiliad clir o'r plant sy'n cael gofal yn ystod yr amseroedd hyn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd cynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd eu hangen. Mae hyn yn creu awyrgylch cyfforddus a hapus. Mae'n canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion unigol pob plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau mewn modd ymatebol ac yn gwrando ar geisiadau'r plant am yr hyn yr hoffent ei wneud.

Mae'n trefnu cyfleoedd chwarae a dysgu priodol ond nid yw'n arsylwi ar yr hyn y mae'r plant yn ei wneud nac yn ei gofnodi i'w helpu i gynllunio ar gyfer camau chwarae, dysgu a datblygu nesaf y plant. Yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, ymatebodd y gwarchodwr plant yn gadarnhaol i geisiadau'r plant iddi chwarae pêl-droed â nhw, eu helpu i lenwi bwcedi o feintiau gwahanol â thywod, ac ymuno â'u golygfa coginio dychmygol. Roedd y gwarchodwr plant yn cyd-ganu hoff gân Gymraeg y plant wrth iddynt chwarae yn y tywod.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r amgylchedd chwarae yn yr awyr agored yn fawr ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae gan y gwarchodwr plant system addas ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Mae wedi cwblhau asesiadau risg cyffredinol i nodi'r peryglon posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau na'r teithiau allan yn llawn, ac nid ydynt wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau diogelwch tân sy'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w cymryd mewn argyfwng, ond nid ydynt wedi cael eu dyddio i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf. Nid yw wedi cwblhau asesiad risg diogelwch tân Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gwarchod plant.  Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod wedi trefnu gwiriad o'r system wresogi olew. Mae ganddi becyn cymorth cyntaf addas. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal arferion glanhau da.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do ddigonol i'r plant symud yn rhydd a datblygu eu chwarae mewn ffordd addas. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant ar gael, ond ni all y plant gael gafael ar bob un ohonynt yn hawdd. Er enghraifft, mae rhai o'r bocsys teganau unigol wedi'u gorlenwi, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r plant wneud dewisiadau a chael cyfle i chwarae â theganau gwahanol. Mae rhai o'r doliau yn adlewyrchu diwylliannau gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'n cymdeithas ehangach. Nid oes digon o ddeunyddiau naturiol ac eitemau wedi'u hailgylchu i ddatblygu chwilfrydedd y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant yn briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr ardal chwarae yn yr awyr agored mewn cyflwr da ac yn cael ei defnyddio mor aml â phosibl. Mae'n ehangu datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth addas o adnoddau i wella eu sgiliau corfforol a chydsymud. Mae'r gwarchodwr plant wedi creu ardaloedd i'r plant blannu blodau er mwyn helpu i feithrin eu sgiliau meithrin.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach i gydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben ysgrifenedig sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol i adlewyrchu'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae wedi llunio polisi diogelwch, ond nid yw hwn yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw'r holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd ac nid yw rhai ohonynt yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru, fel y polisi bwyd a maeth. Mae'r datganiad asesu gwasanaeth wedi cael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal ond nid yw wedi cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan y rhieni, y gofalwyr a'r plant i dynnu sylw at y gwelliannau y gellid eu gwneud i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae wedi sicrhau bod ganddi hi yn ogystal â'r rhai sy'n byw ar y safle dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r wybodaeth ofynnol yng nghofnodion personol y plant i wneud yn siŵr ei bod yn gallu diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu â'r gymuned drwy fynd â'r plant am dro ac i ymweld â safleoedd lleol i'w helpu i ddysgu am eu hardal gyfagos a gwella eu sgiliau cymdeithasol. Dangosodd y gwarchodwr plant luniau o'r plant yn ymgymryd â gweithgaredd, yn cymryd rhan mewn diwrnod mabolgampau yn yr ardd, yn mynd am dro yng nghefn gwlad ac yn plannu hadau. Dywedodd y rhieni / gofalwyr eu bod yn hapus iawn gyda'r lleoliad a bod y gwarchodwr plant yn '*amazing*', '*courteous*' ac yn '*takes interest in the children'*. Dywedodd y rhieni / gofalwyr fod y gwarchodwr plant yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a bod eu plant yn cael digonedd o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod cofnod dyddiol yn cael ei gadw o enwau'r plant a'r oriau y maent yn bresennol er mwyn gwneud yn siŵr bod trywydd archwilio clir o'r plant sy'n cael gofal yn ystod yr amseroedd hyn. | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r gwibdeithiau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. Rhaid i'r gwarchodwr plant wneud yn siŵr bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n flynyddol a'u hadolygu pan fydd unrhyw newidiadau i'r safle neu i anghenion y plant perthnasol. | Newydd |
| 22 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth lunio'r polisi, rhaid i'r gwarchodwr plant hefyd fod yn gyfarwydd â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Ystyried creu mwy o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, yn enwedig yn ystod amseroedd bwyd. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod y bwyd a'r diodydd a gynigir yn iach ac yn faethlon yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau yr arsylwir ar yr hyn y mae'r plant yn ei wneud ac y caiff ei gofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |

| | |
|---|---|
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Ystyried a chynnwys y sylwadau gan y rhieni / gofalwyr, y plant a'r gweithwyr proffesiynol wrth adolygu ansawdd y gofal a ddarperir er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn a nodi'r gwelliannau y gellid eu gwneud. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/09/2024